

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales



# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 7 Hydref 2010  
Tabled on 7 October 2010

Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)  
Proposed Welsh Language (Wales) Measure

- |   |            |
|---|------------|
| <b>Jenny Randerson</b>  | <b>145</b> |
| Schedule 6, page 102, after line 15, column 2, insert –           |            |
| ‘Promotion standards’.  |            |
| Atodlen 6, tudalen 106, ar ôl llinell 19, colofn 2, ychwanegwch – |            |
| ‘Safonau hybu’.   |            |
| <br>  |            |
| <b>Jenny Randerson</b>  | <b>146</b> |
| Schedule 6, page 102, after line 43, column 2, insert –           |            |
| ‘Promotion standards’.  |            |
| Atodlen 6, tudalen 108, ar ôl llinell 19, colofn 2, ychwanegwch – |            |
| ‘Safonau hybu’.   |            |

**Jenny Randerson** 147

Schedule 6, page 100, after line 33, column 2, insert –

‘Promotion standards’.

Atodlen 6, tudalen 100, ar ôl llinell 31, colofn 2, ychwanegwch –

‘Safonau hybu’.

**Jenny Randerson** 148

Schedule 6, page 107, after line 23, column 2, insert –

‘Promotion standards’.

Atodlen 6, tudalen 109, ar ôl llinell 7, colofn 2, ychwanegwch –

‘Safonau hybu’.

**Jenny Randerson** 149

Schedule 6, page 107, after line 31, column 2, insert –

‘Promotion standards’.

Atodlen 6, tudalen 101, ar ôl llinell 40, colofn 2, ychwanegwch –

‘Safonau hybu’.

**Jenny Randerson** 150

Schedule 6, page 109, after line 39, column 2, insert –

‘Promotion standards’.

Atodlen 6, tudalen 110, ar ôl llinell 35, colofn 2, ychwanegwch –

‘Safonau hybu’.

**Jenny Randerson** **151**

Schedule 6, page 111, after line 19, column 2, insert –

‘Promotion standards’.

Atodlen 6, tudalen 107, ar ôl llinell 7, colofn 2, ychwanegwch –

‘Safonau hybu’.

**Jenny Randerson** **152**

Schedule 4, page 96, line 9, after ‘have’, insert ‘in addition to aiming to represent the diversity of the whole of Wales’.

Atodlen 4, tudalen 96, llinell 10, ar ôl ‘arno’, ychwanegwch ‘yn ogystal â cheisio cynrychioli amrywiaeth Cymru gyfan’.

**Jenny Randerson** **153**

Page 12, line 13, leave out section 1 and insert –

‘English and Welsh are the official languages of Wales, and have equal validity and status.’.

Tudalen 12, llinell 12, gadewch allan adran 1 a rhowch yn ei lle –

‘Y Gymraeg a’r Saesneg yw ieithoedd swyddogol Cymru, ac mae eu dilysrwydd a’u statws yn gyfartal.’.

**Jenny Randerson** **154**

Section 38, page 33, after line 22, insert –

- ‘() Before making regulations under this section, Welsh Ministers must consult the Commissioner, the persons to whom it is proposed to make the standards specifically applicable, and such other persons as they consider appropriate.’.

Adran 38, tudalen 33, ar ôl llinell 24, ychwanegwch –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r Comisiynydd, y personau arfaethedig y bydd y safonau yn benodol gymwys iddynt, ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru o’r farn eu bod yn briodol.’.

**Jenny Randerson**

155

Section 34, page 31, after line 18, insert –

- ‘() Before making an order under this section, Welsh Ministers must consult the Commissioner, the persons to whom it is proposed to add to or remove from Schedules 6 or 8, and such other persons as they consider appropriate.’

Adran 34, tudalen 31, ar ôl llinell 18, ychwanegwch –

- ‘() Cyn gwneud gorchymyn o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r Comisiynydd, y personau arfaethedig a gaiff eu hychwanegu at Atodlenni 6 neu 8 neu eu dileu o Atodlenni 6 neu 8, ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru o’r farn eu bod yn briodol.’

**Jenny Randerson**

156

Section 25, page 27, after line 7, insert –

- ‘() Before making regulations under this section, Welsh Ministers must consult the Commissioner and such other persons as they consider appropriate.’

Adran 25, tudalen 27, ar ôl llinell 7, ychwanegwch –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r Comisiynydd ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru o’r farn eu bod yn briodol.’

**Jenny Randerson**

157

Section 70, page 47, line 12, after ‘may’, insert ‘(as a result of a complaint under section 94 or otherwise)’.

Adran 70, tudalen 47, llinell 7, ar ôl ‘Comisiynydd’, ychwanegwch ‘(o ganlyniad i gŵyn o dan adran 94 neu fel arall)’.

**Paul Davies**

158

Section 2, page 13, line 7, leave out subsection (2) and insert –

- ‘() The Commissioner is to be appointed by resolution of the National Assembly for Wales on a motion proposed by the First Minister.’

Adran 2, tudalen 13, llinell 7, gadewch allan is-adran (2) a rhowch yn ei lle –

( ) Mae'r Comisiynydd i'w benodi drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gynnig a roddir gerbron gan Brif Weinidog Cymru.'

**Paul Davies**

**159**

Schedule 1, page 86, line 29, after 'may', insert ', with the agreement of the National Assembly for Wales

Atodlen 1, tudalen 86, llinell 32, ar ôl 'Cymru', ychwanegwch ', os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno i hynny,'.

**Paul Davies**

**160**

Section 11, page 18, after line 31, insert –

( ) The Commissioner must delegate to the Deputy Commissioner (or another member of staff) the primary responsibility for promoting and facilitating the use of Welsh outside the scope of the standards provided for in this Measure.'

Adran 11, tudalen 18, ar ôl llinell 30, ychwanegwch –

( ) Rhaid i'r Comisiynydd ddirprwyo i'r Dirprwy Weinidog (neu aelod arall o staff) y prif gyfrifoldeb dros hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg y tu allan i gwmpas y safonau y darperir ar eu cyfer yn y Mesur hwn.'

**Paul Davies**

**161**

Section 22, page 25, line 29, leave out subsection (1) and insert –

( ) The members of a panel of advisers to the Commissioner are to be appointed by resolution of the National Assembly for Wales on a motion proposed by the First Minister, the Counsel General or one of the Welsh Ministers.'

Adran 22, tudalen 25, llinell 29, gadewch allan is-adran (1) a rhowch yn ei lle –

( ) Mae aelodau panel o gynghorwyr i'r Comisiynydd i'w penodi drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gynnig a roddir gerbron gan Brif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu un o Weinidogion Cymru.'

**Paul Davies** 162

Schedule 4, page 96, line 25, after ‘may’, insert ‘, with the agreement of the National Assembly for Wales,’.

Atodlen 4, tudalen 96, llinell 28, ar ôl ‘Cymru’, ychwanegwch ‘, os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno i hynny,’.

**Paul Davies** 163

Section 61, page 43, after line 13 insert –

‘(iii) any relevant regulatory or professional body, and’.

Adran 61, tudalen 43, ar ôl llinell 13 ychwanegwch –

‘(iii) unrhyw gorff rheoleiddio neu gorff proffesiynol, a’.

**Paul Davies** 164

Section 91, page 57, line 30, after ‘and’, insert ‘either’.

Adran 91, tudalen 57, llinell 32, ar ôl ‘a’ ychwanegwch ‘naill ai’.

**Paul Davies** 165

Section 91, page 57, line 31, after ‘requirement’, insert –

‘or

( ) determines that D has not failed to comply with a relevant requirement’.

Adran 91, tudalen 57, llinell 33, ar ôl ‘perthnasol’, ychwanegwch –

‘neu

( ) yn dyfarnu nad yw D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol’.

**Paul Davies** 166

Section 91, page 57, after line 33, insert –

‘( ) If a determination under subsection (1)[ ] arises from a complaint under section 94, the complainant (P) may appeal to the Tribunal on the grounds that D did fail to comply with the relevant requirement.’.

Adran 91, tudalen 57, ar ôl llinell 35, ychwanegwch –

‘( ) Os bydd penderfyniad o dan is-adran (1) [ ] yn deillio o gŵyn o dan adran 94, caiff yr achwynydd (P) apelio i’r Tribiwnlys ar y sail bod D wedi methu â chydymffurfio â’r gofyniad perthnasol.’.

**Paul Davies** 167

Section 91, page 58, line 6, after 'D', insert '(or, in the case of an appeal by P, P)'.

Adran 91, tudalen 58, llinell 6, ar ôl 'D', ychwanegwch '(neu, yn achos apêl gan P, P)'.

**Paul Davies** 168

Section 91, page 58, line 19, after 'D', insert '(and, in a case in which P may appeal under subsection [ ], P)'.

Adran 91, tudalen 58, llinell 21, ar ôl 'D', ychwanegwch '(ac, mewn achos lle y caiff P apelio o dan is-adran (x), P)'.

**Paul Davies** 169

Section 92, page 58, after line 24, insert –

'(c) in the case of an appeal by P, direct the Commissioner to consider enforcement action on the basis of the tribunal's findings.'

Adran 92, tudalen 58, ar ôl llinell 25, ychwanegwch –

'(c) yn achos apêl gan P, rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd ystyried camau gorfodi ar sail canfyddiadau'r tribiwnlys.'

**Paul Davies** 170

Section 93, page 58, line 34, after 'D', insert '(or P if the Tribunal's decision arises from a complaint under section 94)'.

Adran 93, tudalen 58, llinell 36, ar ôl 'D', ychwanegwch '(neu P os bydd penderfyniad y Tribiwnlys yn deillio o gŵyn o dan adran 94)'.

**Paul Davies** 171

Section 109, page 68, line 15, leave out subsection (3) and insert -

'( ) The members of the Tribunal are to be appointed by resolution of the National Assembly for Wales on a motion proposed by the First Minister, the Counsel General or one of the Welsh Ministers.'

Adran 109, tudalen 68, llinell 14, gadewch allan is-adran (3) a rhowch yn ei lle –

- ‘() Mae aelodau’r Tribiwnlys i’w penodi drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gynnig a roddir gerbron gan Brif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu un o Weinidogion Cymru.’

**Paul Davies**

**172**

Schedule 11, page 131, line 5, after ‘may’, insert ‘, with the agreement of the National Assembly for Wales,’.

Atodlen 11, tudalen 131, llinell 6, ar ôl ‘Cymru’, ychwanegwch ‘, os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno i hynny,’.

**Paul Davies**

**173**

Section 134, page 78, line 1, leave out subsection (3).

Adran 134, tudalen 78, llinell 1, gadewch allan is-adran (3).

**Paul Davies**

**174**

Section 136, page 78, after line 26, insert –

- ‘(3) No order may be made under section 145 in relation to the repeal of Part 2 of the 1993 Act until that Part has ceased to apply to all bodies as a consequence of the application of section 135(2).’.

Adran 136, tudalen 78, ar ôl llinell 27, ychwanegwch –

- ‘(3) Ni chaniateir gwneud unrhyw orchymyn o dan adran 145 mewn perthynas â diddymu Rhan 2 o Ddeddf 1993 hyd oni fydd y Rhan honno wedi peidio â bod yn gymwys i bob corff o ganlyniad i gymhwyso adran 135(2).’.

**Leanne Wood**

**175**

Section 25, page 27, after line 7, insert –

- ‘() Welsh Ministers will be responsible for ensuring that standards under subsection (1) are in force by no later than two years from when the Welsh Language (Wales) Measure comes into force.’.



Adran 25, tudalen 27, ar ôl llinell 7, ychwanegwch –

- ‘( ) Bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod safonau o dan is-adran (1) mewn grym erbyn dyddiad nad yw’n ddiweddarach na dwy flynedd ar ôl i Fesur y Gymraeg (Cymru) ddod i rym.’

**Leanne Wood**

**176**

To insert a new Section –

**‘[ ] Specific standards**

- (1) Welsh and English must be treated equally when providing services to the public in Wales and to this end the following standards are appropriate for everybody included in the measure:-
- (a) every letter written in Welsh must be answered in Welsh, where the language of the recipient is unknown the practice will be to reply bilingually;
  - (b) telephones must be answered with a bilingual greeting;
  - (c) when speaking to the body in person individuals must have the choice of speaking in Welsh or English and in public meetings (including hearing, enquiries and other meetings of a legal nature);
  - (d) the name of the body must be shown bilingually;
  - (e) information signs should be bilingual including information within the boundaries of the provider’s property, including areas accessed by the public and signs that are the responsibility of the provider.
  - (f) the body must provide forms and associated documents in Welsh as they are in English.
  - (g) help lines and associated response mechanisms must be available in Welsh as they are in English.
  - (h) official statements, public statements and staff recruitment advertisements must be in Welsh and English.
  - (i) employees must have the choice to work in English or Welsh.
- (2) Bodies to which the above apply are included in Schedule 6’.

I ychwanegu Adran newydd –

**‘[ ] Safonau penodol**

- (1) Rhaid trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru ac i’r perwyl hwnnw mae’r safonau canlynol yn briodol i bawb a gynhwysir yn y mesur:-

- (a) rhaid ateb pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno, a lle nad yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys, yr arfer fydd gohebu'n ddwyieithog;
  - (b) rhaid ateb galwadau ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog;
  - (c) rhaid cynnig dewis i unigolion siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth iddynt ymwneud â'r corff yn bersonol ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus (gan gynnwys gwrandawiadau, ymholiadau ac achosion eraill ag iddynt natur gyfreithiol);
  - (d) rhaid arddangos enw'r corff yn ddwyieithog;
  - (e) dylai arwyddion gwybodaeth fod yn ddwyieithog gan gynnwys gwybodaeth o fewn ffiniau eiddo'r darparwr, gan gynnwys manau lle mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt ac arwyddion y mae'r darparwr yn gyfrifol amdanynt;
  - (f) rhaid i'r corff ddarparu ffurflenni a dogfennau cysylltiedig yn Gymraeg fel ag y maent yn Saesneg;
  - (g) rhaid i linellau cymorth a dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â hynny fod ar gael yn Gymraeg fel ag y maent yn Saesneg;
  - (h) rhaid cyhoeddi datganiadau swyddogol, datganiadau cyhoeddus a hysbysebion i recriwtio staff yn Gymraeg ac yn Saesneg;
  - (i) rhaid i gyflogeion allu dewis gweithio yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- (2) Mae'r cyrff y mae'r uchod yn gymwys iddynt wedi'u cynnwys yn Atodlen 6''.

## Leanne Wood

177

To insert a new Section –

### '[ ] Establishing general rights to accompany standards

- (1) Everyone has the right to use the Welsh language in Wales as far as that is reasonable and proportionate in the circumstances.
- (2) Subsection (1) above does not place duties on persons except those under Part 4 of this Measure.'

I ychwanegu Adran newydd –

### '[ ] Sefydlu hawliau cyffredinol i fynd gyda'r safonau

- (1) Mae gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.
- (2) Nid yw is-adran (1) uchod yn gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio'r dyletswyddau hynny o dan Ran 4 o'r Mesur hwn.'

Leanne Wood

178

Section 25, page 27, after line 7, insert –

- ‘( ) In determining the standards required, due regard must be given:
- (a) to including Welsh-language schemes produced under section 5 of the Welsh Language Act 1993; and
  - (b) to ensuring that the standards do not weaken the commitments made in these schemes in terms of number, range or standard.’

Adran 25, tudalen 27, ar ôl llinell 7, ychwanegwch –

- ‘( ) Wrth bennu’r safonau gofynnol, rhaid rhoi sylw dyladwy:
- (a) i gynnwys cynlluniau iaith Gymraeg a wnaed o dan adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993; a
  - (b) i sicrhau nad yw'r safonau yn gwanhau’r ymrwymiadau a wnaed yn y cynlluniau hyn o ran nifer, ystod, na safon.”.

Leanne Wood

179

To insert a new Section –

**[ ] Individual Remedy**

- (1) Anyone who has suffered damage as a result of a failure by a person to comply with a relevant requirement may bring a claim for damages in the Welsh Language Tribunal (*Tribiwnlys y Gymraeg*) against that person under this section.
- (2) For the purpose of subsection (1) “damage” includes injury to feelings.
- (3) The Welsh Language Tribunal, when hearing a claim under this section –
  - (a) must grant an application to stay the proceedings on grounds of prejudice to such an investigation unless satisfied that the investigation would not be prejudiced,
  - (b) may grant an application to stay the proceedings until such an investigation has been concluded.
- (4) A claim under this section may not be brought after the end of –
  - (a) the period of 6 months starting with the date of the failure to which the claim relates, or (if later)
  - (b) such other period as the Welsh Language Tribunal thinks just and equitable.
- (5) For the purpose of this section, a failure to comply with a relevant requirement over a period is to be treated as done at the end of the period.
- (6) Where an alleged failure in relation to which a claim under this section has been brought has been the subject of an investigation by the Commissioner under section

70, any finding of fact relevant to that claim is to be treated by the Welsh Language Tribunal as conclusive evidence of that fact.’.

I ychwanegu Adran newydd –

**[ ] Rhwymedi’r unigolyn**

- (1) Caiff unrhyw un sydd wedi dioddef niwed o ganlyniad i fethiant gan berson i gydymffurfio â gofyniad perthnasol ddwyn hawliad am iawndal yn Nhrifiwnlys y Gymraeg (*Welsh Language Tribunal*) yn erbyn y person hwnnw o dan yr adran hon.
- (2) At ddibenion is-adran (1), mae "niwed" yn cynnwys anaf i deimladau.
- (3) Mewn gwrandawriad ar gyfer hawliad o dan yr adran hon –
  - (a) rhaid i Dribiwnlys y Gymraeg ganiatáu cais i atal yr achos oherwydd y byddai’n niweidiol i ymchwiliad o’r fath onid yw’n fodlon na chaiff yr ymchwiliad ei niweidio,
  - (b) caiff Tribiwnlys y Gymraeg ganiatáu cais i atal yr achos tan y bydd ymchwiliad o’r fath wedi dod i ben.
- (4) Ni ellir dwyn hawliad o dan yr adran hon ar ôl –
  - (a) cyfnod o 6 mis yn dechrau ar ddyddiad y methiant y mae’r hawliad yn berthnasol iddo, neu (os yw hynny’n hwyrach)
  - (b) cyfnod arall sydd yn gyfiawn ac yn deg yn nhyb Tribiwnlys y Gymraeg.
- (5) At ddibenion yr adran hon, dylid trin achos o fethu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol dros gyfnod o amser fel petai wedi digwydd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
- (6) Lle bo achos honedig o fethu, y dygwyd hawliad o dan yr adran hon amdano, wedi bod yn destun ymchwiliad gan y Comisiynydd o dan adran 70, dylai Tribiwnlys y Gymraeg drin unrhyw ganfyddiad ffeithiol sy’n berthnasol i’r hawliad hwnnw fel tystiolaeth derfynol o’r ffaith honno.

**Leanne Wood**

**180**

Section 82, page 54, line 6, leave out subsection (4).

Adran 82, tudalen 54, llinell 5, gadewch allan is-adran (4).

**Leanne Wood**

**181**

Page 19, line 35, leave out section 15.

Tudalen 19, llinell 34, gadewch allan adran 15.

**Leanne Wood** 182

Page 25, line 29, leave out section 22.

Tudalen 25, llinell 29, gadewch allan adran 22.

**Leanne Wood** 183

Page 26, line 2, leave out section 23.

Tudalen 26, llinell 2, gadewch allan adran 23.

**Leanne Wood** 184

Schedule 9, page 122, after line 20, insert –

‘software;  
information technology;  
skills training;  
the use of Welsh in the workplace.’.

Atodlen 9, tudalen 122, ar ôl llinell 21, ychwanegwch –

“meddalwedd;  
technoleg gwybodaeth;  
hyfforddiant sgiliau;  
defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.”.

**Leanne Wood** 185

Section 3, page 13, line 12, leave out subsection (1) and insert –

- ‘( ) It is a duty on the Commissioner –
- (a) to promote and facilitate the use of the Welsh language,
  - (b) to promote equality between the Welsh and English languages,
  - (c) to investigate interference with the right to use the Welsh language as defined in sections [ ] to [ ]’.

Adran 3, tudalen 13, llinell 13, gadewch allan is-adran (1) a rhowch yn ei lle-

- ‘( ) Mae’n ddyletswydd ar y Comisiynydd –
- (a) i hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg,
  - (b) i hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a’r Saesneg,

- (c) i ymchwilio i ymyrraeth â'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg fel y diffinnir hynny yn adrannau [ ] hyd at [ ]'.

**Leanne Wood**

186

Section 3, page 13, after line 28, insert –

- '(k) to voice publicly an opinion on the use and the treatment of the Welsh language by companies in the private sector not limited to the kinds of companies listed in the Schedules to this Measure.'

Adran 3, tudalen 13, ar ôl llinell 30, ychwanegwch –

- '(k) lleisio'n gyhoeddus farn ar y modd y mae cwmnïau yn y sector preifat yn defnyddio ac yn trin y Gymraeg, heb i hynny fod yn gyfyngedig i'r math o gwmnïau a restrir yn yr Atodlenni i'r Mesur hwn.'

**Leanne Wood**

187

Section 55, page 40, after line 22, insert –

- '(5) The Commissioner must –
- (a) publish on the Commissioner's website and in at least two publications which are distributed generally in Wales (one which is a primarily Welsh-language publication and the other a primarily English-language publication) –
    - (i) the fact that the application has been made,
    - (ii) that any person who wishes to do so may make representations to the Commissioner in relation to the application, and
    - (iii) the date (no earlier than 21 days and no later than 35 days after the publication date) that persons may notify the Commissioner that they wish to submit such comments;
  - (b) take such further steps as reasonably necessary to ensure that the matters noted in Section 55(5)(a) are identified to the public in Wales;
  - (c) ensure that a copy of the application is made available for inspection at the Commissioner's office and at such other places and by such other means (including by electronic means) as the Commissioner thinks appropriate;
  - (d) ensure that a copy of the application is sent to any person who gives notice under section 55(5)(a)(iii).'

Adran 55, tudalen 40, ar ôl llinell 22, ychwanegwch –

‘(5) Rhaid i’r Comisiynydd –

- (a) cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac mewn dau gyhoeddiad o leiaf a ddsberthir yn gyffredinol yng Nghymru (y naill yn gyhoeddiad yn bennaf yn yr iaith Gymraeg a’r llall yn gyhoeddiad yn bennaf yn yr iaith Saesneg) –
  - (i) y ffaith bod y cais wedi’i wneud,
  - (ii) y caiff unrhyw berson sydd yn dymuno gwneud hynny gyflwyno sylwadau i’r Comisiynydd mewn perthynas â’r cais, ac
  - (iii) y dyddiad (dim cynharach na 21 diwrnod a dim hwyrach na 35 diwrnod ar ôl dyddiad y cyhoeddiad) erbyn pryd y gall personau hysbysu’r Comisiynydd eu bod yn dymuno cyflwyno sylwadau o’r fath;
- (b) cymryd camau pellach o’r fath sydd yn rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod y materion a nodir yn Adran 55(5)(a) yn cael eu gwneud yn hysbys i’r cyhoedd yng Nghymru;
- (c) sicrhau bod copi o’r cais ar gael i’w archwilio yn swyddfa’r Comisiynydd ac mewn manau eraill o’r fath a thrwy dduilliau eraill o’r fath (yn cynnwys dulliau electronig) fel ag yr ystyria’r Comisiynydd yn briodol;
- (d) sicrhau bod copi o’r cais yn cael ei anfon at unrhyw berson sydd yn rhoi hysbysiad o dan adran 55(5)(a)(iii).’.

**Leanne Wood**

**188**

Section 56, page 40, after line 33, insert –

‘() must consult any other person who has given notice under section 55(5)(a)(iii),’.

Adran 56, tudalen 40, ar ôl llinell 32, ychwanegwch –

‘() rhaid ymgynghori ag unrhyw berson sydd wedi rhoi hysbysiad o dan adran 55(5)(a)(iii),’.